

## CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

### **Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 2ail o Fedi 2020 am 7.30 o'r gloch yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.**

**Presennol;** Cynghorwyr Berwyn Hughes, Hedd Pugh, Idris Jones, John P Jones, Catrin Jones, Arfon Hughes, Robin Hughes, Berwyn Harding, Sion Alun Roberts, Geraint Morgans, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is-Gadeirydd y Cynghorydd Berwyn Hughes. Cyfeiriwyd gyda thristwch enbyd at gollu Cadeirydd y Cyngor Iwan Llwyd Foulkes ers y cyfarfod diwethaf. Roedd wedi gwneud gwaith gwerthfawr iawn dros y Cyngor a'i gymuned, a byddai chwith mawr ar ei ol. Cododd holl aelodau'r Cyngor mewn munud o dawelwch er parch ac i gofio amdano.

Yn y cyswllt hyn, cafwyd cynnig gan y Cyng, Hedd Pugh, a'i eilio gan Y Cyng, Catrin Jones y dylid gadael y sedd yn Aberangell yn wag tan Gwanwyn y flwyddyn nesaf, ac ail-edrych ar y sefyllfa yr adeg honno. Roedd teimlad y dylid gwneud hyn fel arwydd o barch tuag ato. Cefnogwyd hyn gan bawb oedd yn bresennol.

2. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gyfarfu ar y 24ain o Fehefin (ar zoom) fel rhai cywir ar gynnig Cyng Hedd Pugh a'i eilio gan Berwyn Harding. (roedd hyn yn dilyn pleidlais lle cafwyd mwyafrif)

### **3. Materion yn codi .**

- a. **Materion Priffyrdd** – adroddwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'r materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf.
- b. **Gohebiaeth Pennaeth Cynllunio Parc Eryri** – adroddodd y Clerc fod gwahoddiad wedi ei ddanfoni i Jonathan Cawley, ond ei fod ar ei wyliau tan yr wythnos hon. Penderfynwyd ei wahodd i'r cyfarfod nesaf. Tra'n cyfeirio at hyn, nodwyd cais *Adeiladu Ty, Tir ger y fynwent, Dinas Mawddwy* a drafodwyd mewn cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio y Parc Cenedlaethol yn gynharach yn y dydd. Roedd penderfyniad wedi ei wneud i newid y ty i un 'menter gwledig' a mynegwyd siom am hyn. Roedd angen mynegi ein teimladau i'r Parc, a chael gwybod hefyd pa bryd fyddai y gwybodaeth diweddaraf ar wefan y Parc. Pwysleisiodd y Clerc na fedrai ysgrifennu ymhellach ar hyn, ond y gallai y Cynghorwyr wneud hynny fel unigolion, a byddai rhaid dilyn y datblygiadau ar wefan y Parc. (gweler hefyd gofnod 8d ar y mater yma lle trafodwyd yn ddiweddarach yn y cyfarfod)
- c. **Mynwent Dinas Mawddwy** – roedd y Clerc wedi trafod gyda Rhys Bleddyn, ac roedd y Clerc ynghyd a'r Cyng John P Jones wedi cyfafod ar y safle. Nid oedd Rhys yn medru gwneud arolwg o'r 3 mynwent sydd yng ngofal y Cyngor ond gallai ymweld os oeddem yn nodi yn ein barn ni, pa rai oedd yn 'beryglys'. Cytunwyd y byddai y Cyng Sion Alun Roberts a Hedd Pugh yn ymweld a mynwent Llanymawddwy, Cyng Robin Hughes a Geraint Morgans i ymweld a hen fynwent Mallwyd. Byddai modd wedyn i gael adroddiadau erbyn y cyfafod nesaf, a phendefynnu ymhellach, a chysylltu gyda Rhys Bleddyn.
- d. **Cadarnhawyd ddyddiadau y cyfarfodydd nesaf ar gyfer 2020/21 – sef 14eg Hydref, 9fed o Ragfyr, 27ain o Ionawr a 10fed o Fawrth.**

#### 4. Ethol Swyddogion.

Penderfynwyd fel a ganlyn;  
Cadeirydd; Cyng Berwyn Hughes.  
Is-Gadeirydd Cyng Hedd Pugh.  
Clerc; Huw T Jones

#### 5. Materion Cynllunio.

Roedd dau gais wedi bod dan ystyriaeth gan y Cynghorwyr ers y cyfarfod diwethaf, sef;

##### **Rhyddhau amodau Rhif 5,6, & 18 o Ganiatad Cynllunio NP5/74/94A dyddiedig 23/01/2007 – Tan yr Allt, Dinas Mawddwy**

Roedd y Cyngor yn gefnogol l'r cais, gan fod y wal gerrig yn edrych yn daclus iawn, ac yn gweddu l'r ardal.

##### **Ymgynghoriad o dan Adran 3 o Ddeddf Trydan 1989 I osod gwifren drydan 11kv uwchben yn Penrhiwcul, Mallwyd**

Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad, oherwydd roedd y gwaith yn angenrheidiol.

Roedd un cais i'w ystyried, sef **Adeiladu estyniad cefn yn Swn y Nant, Aberangell.** Penderfynwyd fod y Cyngor yn gefnogol, gan fod y cynllun yn gweddu l'r ty presennol.

#### 6. Materion Cyllid.

- a) **Cyfrifon 2019-20** – Cyflwynwyd y cyfrifon a holl waith blwyddyn 2019-20 yn ffurfiol i sylw y Cyngor Cymuned. Roedd rhain eisoes wedi bod trwy law yr Archwilwyr Mewnol, sef Uned Archwilio Cyngor Gwynedd. Cyfeiriwyd at yr holl ddatganiadau a'r papurau atodol, a chadarnhawyd fod y rhain yn awr yn gyflawn i'w cyflwyno i'r archwilwyr allanol. Byddai yr hysbyseb ar wefan y Cyngor ar y 7fed o Fedi, gyda'r ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21ain Medi a'r 16eg o Hydref. Dyddiad yr archwiliad oedd 19eg o Hydref. Nodwyd mai un pwynt a godwyd gan yr archwilydd mewnol oedd yr angen I adrodd gwir incwm a gwariant yn rheolaidd – o gymharu a'r gyllideb. Adroddwyd balansau, sef Cyfrif Cyffredinol £11,711.86, Cyfrif Claddedigaeth £3306.43. Roedd dau ran y praesept bellach I law, sef £4410 a dderbyniwyd ar y 26ain Awst. Hefyd taliad blynyddol polion Dolybont £97.42. Roedd gwariant hyd yma yn cynnwys yswiriant £278.40, rhodd Ty Gobaith £250.00, a taliad HMRC I ran cyntaf cydnabyddiaeth y Clerc , sef £108.60.
- b) Cyfeiriwyd at yr **asesiad risg** a oedd wedi ei baratoi eto eleni, a chytunwyd ar hyn. Nodwyd fod angen ychwanegu y trefniadau gyda Covid19.
- c) Yn yr un modd cyfeiriwyd at y **rheolau sefydlog/ariannol** eto eleni sydd l'w gweld ar wefan y Cyngor, a chytunwyd fod y rhain yr un fath ar gyfer 2020-21.

- d) Trafodwyd **cofrestr buddiannau'r aelodau** unigol o'r Cyngor ar gyfer 2020-21, a bod y rhai presennol ar wefan y Cyngor. Nodwyd mor bwysig yw fod y rhain yn cael eu diweddarau fel bo'r angen. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr gysylltu a'r Clerc yn unigol os oedd angen diweddarau.
- e) Adroddodd y Clerc at anfoneb **Chymdeithas y Clercod (SLCC) a** chytunwyd i'w dalu sef £83 – roedd hyn eisoes wedi ei gytuno yn y cyfarod diwethaf.
- f) Cyfeiriwyd at **yswariant y Cyngor** eleni a oedd wedi ei dalu, sef cyfanswm o £278.40. Cyfeiriwyd at benawdau y gorchudd yswariant, a'r symiau dan sylw. Cytunwyd gyda hyn.
- g) Adroddwyd gan y Clerc am yr anhawster a gafodd eleni i gael **ad-daliad TAW o swyddfa HMRC**, ond roedd hyn bellach wedi ei ddatrys, a bod swm o £97.00 wedi ei dderbyn.

## 7. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd at lythyr gan Gyngor Cymund Llanllyfni, a oedd yn amgau cynnig yn galw ar y Cyng Dyfrig Siencyn i alw cyfarfod gyda rhyngdeiliaid yr Wyddfa i drafod sut mae modd codi tal ar ymwelwyr sy'n cerdded yr Wyddfa. Roedd hwn wedi ei ddanfôn allan i bob Cynghorydd ym Mawddwy ymlaenllaw. Ar gynnig Cyng Arfon Hughes a'i eilio gan Cyng. Catrin Jones penderfynwyd, yn dilyn pleidlais lle cafwyd mwyafrif, i gefnogi cynnig Llanllyfni. Byddai'r Clerc yn gohebu.
- b) Amlinellwyd lythyr ymgynghoriad yn nodi y bwriad i wneud i ffwrdd a blychau ffonau cyhoeddus o fewn y gymuned. Roedd y gohebiaeth wedi ei ddanfôn allan i bawb ymlaenllaw. Roedd 3 blwch dan sylw, sef Cwm Cywarch, Abercywarch a Penantigi. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd y dylid dadlau dros eu cadw, oherwydd gallai bod eu hangen mewn sefyllfa o argyfwng, ac roedd hyn yn arbennig o wir am Cwm Cywarch lle nad oedd signal ffon symudol.
- c) Cyfeiriwyd at yr ohebiaeth diweddaraf ynglyn a rampiau ar Pont Droed Dolybont, sef fod Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am ganiatad o dan adran 38 o Ddeddf Tir Comin 2006. Nodwyd yn y cyswllt yma fod angen giat ar y bont.
- d) Amlinellwyd gynnwys llythyr gan Un Llais Cymru yn adrodd am hyfforddiant sydd ar gael i Gynghorwyr, a bod cymorth ariannol ar gael gan Lywodraeth Cymru ar eu cyfer.
- e) Cyfeiriwyd at ymgynghoriad gan y Parc Cenedlaethol ynglyn a Amcanion Gwella a Llesiant, ac aethpwyd drwy'r penawdau. Roedd y gohebiaeth eisoes wedi ei ddanfôn i'r Cynghorwyr. Gofynnwyd i bawb ymateb yn unigol i'r Clerc erbyn Dydd Sul y 6ed o Fedi.
- f) Nodwyd bosteri yn rhoi gwybodaeth am wasanaeth Uned man anafiadau yn Ysbyty Alltwen, Tremadog a Ysbyty Penrhos Stanley yn Caergybi. Byddent yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd y Neuadd.
- g) Adroddwyd ohebiaeth gan Bwyllgor Neuadd Dinas Mawddwy, a chadarnhawyd enw'r Clerc fel y cynrychiolydd swyddogol ar ran y Cyngor Cymuned

## 8. Unrhyw Fater arall.

- a) Roedd cwynion fod lorïau casglu sbwriel yn gadael ychydig sbwriel ar lawr wrth gasglu, a bod hyn yn fler iawn. Roedd angen codi hyn gyda Steffan Jones o Gyngor Gwynedd.
- b) Gofynnwyd beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf gyda Pwyllgor yr Hen Fynwent yn y Dinas, ac adroddodd y Cyng Berwyn Hughes ei fod yn disgwyl clywed gan Annest Smith y Gyfreithwraig sy'n delio efo hyn. Byddai yn adrodd am hyn y tro nesaf.
- c) Nid oedd marciau ar y ffordd ger y fynedfa i Canolfan Arddio Camlan, ac angen codi hyn gyda'r adran briffyrdd.
- d) Mynegwyd siom unwaith eto am na basiwyd y cais cynllunio am dy ger y Fynwent yn y Dinas – a'i fod mor agos i'r llinell derfyn y pentref. Gan fod Pwyllgor Cynllunio y Parc Cenedlaethol yn cyfarfod ar Ddydd Mercher yr 21ain o Hydref (sef run diwrnod a'r Cyngor Cymuned) penderfynwyd newid cyfarfod y Cyngor i'r 14eg o Hydref er mwyn cael trafod efo Jonathan Cawley.
- e) Roedd angen eglurhad am bwy yn union sydd a chyfrifoldeb am y maes Parcïo yn y Plas yn y Dinas. Gofynnwyd yn benodol pwy sydd a'r hawl i orchymyn i campervans i symud oddiyno. Roedd gohebiaeth flaenorol gan Llinos Jones yn dweud nad eu hadran hwy oedd yn gyfrifol. Roedd angen codi hyn gyda Steffan Jones.
- f) Adroddwyd am gais cynllunio Cefn Gwyn Hall, Aberangell, a bod yr ymgewiwr wedi derbyn na fyddai posib cael caniatad cynllunio yno, ac nad oedd bwriad rhoi cais pellach gerbron.
- g) Adroddwyd fod merch ifanc wedi gorfod symud o stad Haulfryn, Aberangell oherwydd fod cymdogion cyfagos iddi, sef pobl dieithr, yn creu swm a rhialtwch bob orïau'r nos, ac na fedrai ddiweddef y sefyllfa. Roedd teimlad fod hyn mor annheg, a cholli Cymry Cymraeg o bentref lle mae gwirioneddol eu hangen. Roeddynt yn dai delfrydol ar gyfer pobl ifanc i gychwyn, a dylid fod yn gosod yn rhatach i rai lleol. Hefyd, roedd angen gweld mwy o hysbysebu pan fyddai ty yn dod yn wag. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at Adra.
- h) Trafodwyd yn fanwl y binïau cadw graean/halen ar ffyrdd yr ardal, as bod angen cadw golwg arnynt cyn y gaeaf. Gofynnwyd i'r Clerc ddanfôn rhestr ohonynt, ag i bawb adrodd yn ol erbyn y Cyngor nesaf. Byddai angen cael 3 yn wag i gael y pris gorau wrth eu hail-lenwi.
- i) Adroddwyd am gyflwr Eglwys Llanymawddwy, -roedd tyllau yn y to, ac iddew yn tyfu dros yr adeilad. Gofynnwyd i'r Clerc ddanfôn llythyr at Alex Glanville.
- j) Roedd byrddau gwybodaeth angen eu trwsio, sef ger y Brigands, y Llew Coch ac yn Llanymawddwy. Penderfynwyd cael pris gan Hefin Pugh i'w trwsio, a chytunodd y Cyng. Arfon Hughes ofyn iddo.
- k) Roedd angen gofyn i'r Parc Cenedlaethol am y diweddaraf gyda gwneud arolwg am safle Canclwm Siapan yn yr ardal.
- l) Holwyd am y sefyllfa ynglyn a toiledau Dinas, ac roedd adroddiad fod y glanhawraig bellach wedi ail-gychwyn gyda'r gwaith. Gwelwyd eu bod yn bwysig i'r pentref.
- m) Adroddwyd fod arhosfan bws Mallwyd angen ei lanhau. Cynigiodd y Cyng Geraint Morgans a Cyng Catrin Jones i gael golwg ar y sefyllfa.
- n) Adroddwyd fod sbwriel yn parhau yn broblem enfawr mewn sawl man. Roedd angen bin o'r newydd yn Mallwyd, a gofynnwyd i'r Clerc ddanfôn at Steffan Jones.
- o) Roedd yna draens ar yr A470 ger Celyn Brithion wedi cau.
- p) Trafodwyd Comin Dolybont, a bod angen pyst o'r newydd fyddai yn help i rwystro y gwersylla yno. Addawodd y Cyng Berwyn Hughes edrych ar y sefyllfa, ac adrodd erbyn y cyfarfod nesaf. Wrth drafod hyn, soniwyd eto am y rampïau, a bod angen giat yno. Addawodd Cyng Arfon Hughes sicrhau y byddai giat yn

cael ei rhoi yno. Yn dilyn hyn, addawodd y Cyng Hedd Pugh i dorri gwair y comin. Soniwyd hefyd am y cyfrifoldeb am y coed ochr ffordd, a'r canghennau sy'n disgyn.

- q) Cyfeiriwyd at y coed ynn heintiedig, (sef yr ash die back) mewn gwahanol safleoedd, a bod hyn yn broblem ar briffyrdd a ffyrdd llai o fewn yr ardal.
- r) Roedd arwydd LLANYMAWDDWY ar goll wrth ddod o'r gogledd i'r pentref, ac angen un newydd.
- s) Cyfeiriwyd at ceblau hen sustem deledu y Dinas a oedd yn fler mewn sawl man, a bod angen cael gwared ohonynt. Cadarnhaodd Cyng Arfon Hughes fod Merfyn Wyn Morris o Adran Cefnffyrdd wedi cysylltu dros y ffon gydag ef, ac y byddai cyfarfod yn fuan.
- t) Roedd coeden yn tyfu ar y bont ger Minllyn, ac roedd angen cyfeirio hyn at Adran Cefnffyrdd.
- u) Trafodwyd pa mor warthus yw fod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu trosi i'r Saesneg, a sut i ymdrin a'r mater yma. Nodwyd nifer o engreiffiau o fewn yr ardal. Awgrymwyd llythyrru yn uniongyrchol, neu cael sgwrs gyda'r perchnogion o bosib. Byddai rhaid trafod hyn eto.
- v) Cyfeiriwyd at Ymgyrch Annibyniaeth i Gymru, ac oherwydd diffyg amser, gwelwyd fod rhaid trafod hyn y tro nesaf.
- w) Awgrymwyd y dylid diolch i'r rhai sydd wedi bod yn cynorthwyo gyda hel neges a moddion i'r rhai oedd yn cysgodi adeg Covid 19. Addawodd y Clerc gynnwys hyn mewn adroddiad i'r wasg, ac addawodd Cyng Arfon Hughes lunio poster hefyd i nodi gwerthfawrogiad.
- x) Cafwyd gair gan y Clerc yn egluro mai y canllawiau ar gyfer ei swydd fel Clerc oedd gweithredu ar benderfyniadau a wneir mewn cyfarfod o'r Cyngor. Ni allai ymateb i geisiadau unigolion am weithredu rhwng cyfarfodydd. Fodd bynnag, byddai yn delio efo ceisiadau cynllunio, darparu a rhannu gwybodaeth, ac ymdrin a materion oedd a brys arnynt. Hefyd, ni allai Cynghorwyr unigol weithredu yn enw Cyngor Cymuned rhwng cyfarfodydd – roedd rhaid i holl waith y Cyngor gael ei sianelu drwy'r Clerc.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 14eg o Hydref yn Neuadd Dinas Mawddwy am 7.30 O'R GLOCH.**

**Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 10.30yh.**